## Cod Ymddygiad Aelod Undeb Aberystwyth

### 1. Beth yw'r Cod Ymddygiad?

1.1. Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn amlinellu safonau ymddygiad a'r ymddygiad a ddisgwylir gan holl aelodau Undeb y Myfyrwyr. Ei bwrpas yw helpu aelodau i ddeall sut gallant gyfrannu tuag at awyrgylch cadarnhaol a chynhwysol o fewn y Brifysgol a cheir ynddo esiamplau.

1.2. Mae unrhyw fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth hefyd yn rhwym i Reolau a Rheoliadau i Fyfyrwyr y Brifysgol, yn ogystal â'r gyfraith.

1.3. Pan fyddwch chi'n ymuno â'r Brifysgol, disgwylir i chi fod yn ymwybodol o'ch ymddygiad eich hun, a sut mae'n effeithio ar eraill. Disgwylir i chi ymddwyn mewn modd rhesymol ac derbyniol.

### 2. Diben y Cod Ymddygiad

2.1. Mae Undeb Aberystwyth wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd sy'n gynhwysol, diogel ac atebol; un lle caiff unigolion eu trin gydag urddas, tegwch a pharch.

2.2. Mae diogelwch a lles myfyrwyr, ein staff ac eraill sy'n cymryd rhan ac yn rhyngweithio gyda Undeb y Myfyrwyr o bwys inni. Mae arnom gyfrifoldeb moesegol a chyfreithiol tuag at y bobl sydd yn rhan o'n cymuned, felly mae'n bwysig bod pob un o'n haelodau yn deall y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gyfrannu i'r amgylchedd hwn.

2.3. Yn benodol, ein nod yw:

2.3.1. Diogelu myfyrwyr ac eraill sy'n rhyngweithio â'r SU;
2.3.2. Sicrhau tegwch, gonestrwydd ac ymddygiad o'r safon uchaf posibl;
2.3.3. Lleihau'r perygl o niwed, anaf, aflonyddu a chamymddwyn tuag at aelodau a'r gymuned yn gyffredinol;
2.3.4. Hyrwyddo ymddygiadau sy'n gydnaws â gwerthoedd ein sefydliad;
2.3.5. Sicrhau y gall unrhyw fyfyriwr deimlo fod croeso iddo ac wedi'u cynnwys yng ngweithgareddau Undeb Aberystwyth.

### 3. Cwmpas - i bwy mae'r Cod yn berthnasol, ac ym mha sefyllfaoedd?

Mae Cod Ymddygiad Aelodaeth yn berthnasol i:

3.1. Pob aelod Undeb Aberystwyth fel y'i diffinnir yn Adran 11 o'n Cyfansoddiad;

3.2. Aelodau cysylltiedig Undeb y Myfyrwyr;

3.3. Pobl gysylltiedig â gweithgareddau a digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr a'r rheini sy'n cefnogi grwpiau myfyrwyr gan gynnwys, er nid yn unig, hyfforddwyr, cyfarwyddwyr, gweinyddwyr ayyb;

3.4. Aelodau etholedig pwyllgorau Undeb Aberystwyth, Cynrychiolwyr Academaidd, arweinwyr grwpiau myfyrwyr, gwirfoddolwyr a/neu'r rhai sy'n dal swydd gynrychioliadol o fewn Undeb y Myfyrwyr.

3.5. Mae'r Cod Ymddygiad yn berthnasol i unrhyw weithred sydd:

3.5.1. Yn digwydd ar dir Undeb Aberystwyth;

3.5.2. Yn cael ei gyflawni wrth ddefnyddio adnoddau, cyfleusterau Undeb Aberystwyth neu wrth fynychu digwyddiad / gweithgaredd yr Undeb;
3.5.3. Yn cael ei chyflawni tra bydd aelod yn cynrychioli Undeb Aberystwyth neu yn gweithredu ar ei ran neu y gellid ystyried ei fod yn ei gynrychioli / yn gweithredu ar ei ran mewn unrhyw fodd hynny yw mewn digwyddiad, wyneb yn wyneb, yn ystod taith, ar-lein (er enghraifft ar gyfryngau cymdeithasol) neu mewn gohebiaeth.

3.6. Mae Cod Ymddygiad ar wahân ar gyfer Swyddogion Llawn Amser Undeb y Myfyrwyr (Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion), sy'n perthyn i'w swydd.
3.7. Mae hefyd Cod Ymddygiad ar wahân ar gyfer Grwpiau Myfyrwyr sy'n manylu ar yr ymddygiadau a'r safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau.
3.8. Mae disgwyl i Swyddogion Llawn Amser a'r rhai sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau grwpiau myfyrwyr barhau i gadw at y safonau a bennir yn y ddogfen hon. Ond mae'r dolenni ar wahân yn rhoi gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'u cyd-destun.

## 4. Disgwyliadau a Safonau Ymddygiad

Fel aelod o Undeb y Myfyrwyr, disgwylir i chi:

4.1. Ymddwyn yn unol â pholisïau a rheolau Undeb Aberystwyth a gweithredu yn unol â'r rheolau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau rydych chi'n cymryd rhan ynddynt;
4.2. Ymddwyn bob amser mewn modd rhesymol a chyfrifol a pheidio â gweithredu mewn modd a allai beryglu eraill yn afresymol neu ddwyn gwarth ar Undeb y Myfyrwyr, y Brifysgol neu'n partneriaid;
4.3. Dangos parch a dealltwriaeth i holl aelodau'r Brifysgol a'r gymuned ehangach;
4.4. Gwneud yn siŵr bod pob aelod yn teimlo fod croeso i gymryd rhan mewn trafodaethau, gweithgareddau, gwasanaethau neu ddigwyddiadau;
4.5. Ymddwyn mewn modd rhesymol mewn perthynas ag iaith, sŵn ac ymddygiad;
4.6. Annog eraill i gydymffurfio â'r Cod ac i beidio â rhoi pwysau ar eraill na'u hannog i dorri'r safonau ymddygiad hyn;
4.7. Trin holl eiddo Undeb Aberystwyth a'r Brifysgol gyda pharch a pheidio â tharfu ar allu pobl eraill i fwynhau ein cyfleusterau, ein gwasanaethau neu ein gweithgareddau.

Ni fyddwn yn derbyn na goddef ymddygiadau sy'n cynnwys:

4.8. Bwlio ac aflonyddu;
4.9. Aflonyddu Rhywiol a Thrais Rhywiol;
4.10. Hiliaeth;
4.11. Rhywiaeth;
4.12. Islamoffobia a Gwrthsemitiaeth;
4.13. Homoffobia a Deuffobia;
4.14. Trawsffobia;
4.15. Cam-drin Domestig (gan gynnwys cam-drin tra'n canlyn);
4.16. Ableddiaeth;

4.17. Unrhyw ffurf arall ar wahaniaethu, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ragfarn oed, dosbarthiaeth, senoffobia, a gwahaniaethu ar sail crefydd, cenedligrwydd, niwroamrywiaeth, maint corff, neu statws rhiant.

4.18. Mae Rheolau a Rheoliadau Myfyrwyr y Brifysgol hefyd yn nodi rhai enghreifftiau o'r math o ymddygiad a gaiff eu hystyried i dorri safonau'r Brifysgol o ymddygiad disgwyliedig.

## 5. Swyddi Arwain ac Ymddygiad

5.1. Mae llawer o’n haelodau yn ymwneud â swyddi arwain o fewn Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr grwpiau myfyrwyr, Cynrychiolwyr Academaidd, aelodau pwyllgor a gwirfoddolwyr eraill.
5.2. Os ydych chi mewn swydd arwain a/neu yn gwirfoddoli yn Undeb y Myfyrwyr, disgwylir i chi glynu wrth yr ymddygiadau a bennir yn Adran 4 o’r Cod hwn. Cydnabyddir hefyd fod gennych gyfrifoldeb a grym, ac am hynny mae disgwyliadau ychwanegol.

Disgwylir ichi:

5.3. Cyflawni eich swydd a’ch cyfrifoldebau hyd eithaf eich gallu, yn unol â phroffil rôl eich swydd;
5.4. Dangos atebolrwydd am y ffordd rydych chi'n cyflawni eich swydd;
5.5. Sicrhau eich bod yn gyfarwydd yn llawn â'r polisïau a'r gweithdrefnau a all effeithio ar eich swydd a/neu ar y bobl rydych chi'n ei chynrychioli / ei harwain / ei chefnogi o fewn eich swydd;
5.6. Sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'n polisi Diogelu [link] ac yn ymwybodol o beth i'w wneud os yw rhywun yn rhannu pryder ynghylch diogelu neu fater difrifol gyda chi;
5.7. Cymryd rhan weithredol yn y sefydlu a’r hyfforddiant i'ch helpu i ddeall eich swydd, eich cyfrifoldebau a’r hyn sy’n ddisgwyliedig. Os na fyddwch yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant a nodir yn hanfodol, ni fyddwch yn cael eich caniatáu i barhau yn y swydd;
5.8. Ceisio yn weithredol i wella a pharhau â’ch dysgu am arweinyddiaeth, cynhwysiant ac amrywiaeth;
5.9. Bod yn onest ac yn ddibynadwy. Dylech gadw at addewidion a chyflawni gweithredoedd yr ydych wedi ymrwymo iddynt;
5.10. Gweithio’n galed i greu amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol ar gyfer y rheini rydych chi’n eu cynrychioli/ eu harwain / eu cefnogi;
5.11. Bod yn esiampl o’r ymddygiadau cadarnhaol a amlinellir yn Adran 4 o’r Cod hwn a’u hyrwyddo;
5.12. Ymgysylltu’n weithredol â sianeli cyfathrebu Undeb y Myfyrwyr a manteisio arnynt gan gynnwys e-byst, y wefan, a chyfarfodydd datblygu;
5.13. Cysylltu ag Undeb y Myfyrwyr os oes gennych unrhyw bryderon neu fod angen cymorth neu gyngor;
5.14. Ymddwyn fel llysgennad a chynrychiolydd ar ran Undeb y Myfyrwyr a’r Brifysgol mewn modd proffesiynol a chadarnhaol.

## 6. Bwlio ac Aflonyddu

6.1. Yn Undeb Aberystwyth, rydym yn disgwyl i holl aelodau ein cymuned drin ei gilydd â pharch, urddas, cwrteisi, ac ystyriaeth.
6.2. Diffinnir aflonyddu fel ymddygiad corfforol, rhywiol, llafar neu ddieiriau digroeso a di-alw-amdano sy'n tarfu (boed yn fwriadol neu beidio) ar urddas unigolyn neu sy'n creu amgylchedd ymosodol, gelyniaethus, diraddiol, dirmygus, neu gas.
6.3. Mae aflonyddu gan grŵp neu sefydliad yn anghyfreithlon wrth dargedu rhywun ar sail nodwedd gwarchodedig, gan gynnwys: oedran; rhyw; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a chyfeiriadedd rhywiol.
6.4. Diffinnir bwlio fel ymddygiad sarhaus, ymosodol, maleisus neu enllibus, neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer (er nad yw bob tro yn golygu meddu ar awdurdod) trwy ddulliau â'r nod i danseilio, bychanu, neu ddiraddio unigolyn.
6.5. Nid yw bwlio ac aflonyddu o reidrwydd yn ymwneud â 'nodwedd gwarchodedig'.
6.6. Mae enghreifftiau o fwlio ac aflonyddu yn cynnwys, er nid yn unig, sylwadau anweddus neu ymosodol; cam-drin llafar, sarhau, neu wawdio; graffiti neu difwyno; sylwadau rhywiol digroeso, gafael, cyffwrdd, neu stelcio; ymddygiad bygythiol neu drais corfforol.
6.7. Nid yw bwlio ac aflonyddu o reidrwydd yn digwydd wyneb yn wyneb, gall ddigwydd ar ffurf ohebiaeth ysgrifenedig, delweddau gweledol, ar-lein, e-byst, ar y cyfryngau cymdeithasol neu dros y ffôn. Gall gael ei gyflawni gan unigolion neu grwpiau a gall ddigwydd yn gyhoeddus neu yn breifat.
6.8. Gellir gwahaniaethu rhwng bwlio ac aflonyddu ac araith a sylwad angerddol, mynegiant teg o gred gwarchodedig o dan y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 a dadleuon dilys. Fodd bynnag, dylid ceisio sicrhau nad yw eraill yn teimlo dan fygythiad.
6.9. Rydym hefyd yn disgwyl i aelodau gydnabod eu rhagfarnau eu hunain a'u herio, ac i gymryd i ystyriaeth fod pawb yn hanu o amryw o gefndiroedd, diwylliannau, a phrofiadau. Mae cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhyngweithio yn aros yn barchus a chynhwysol. Ni ddylid byth ceisio honni gwahaniaethau mewn dulliau cyfathrebu, normau diwylliannol, neu safbwyntiau personol fel esgus dros ymddygiad sy'n tanseilio urddas person arall. Yn lle, anogir i aelodau ymddwyn â hunanymwybyddiaeth, empathi, a sensitifrwydd wrth ryngweithio bob tro.

## 7. Camymddwyn Rhywiol, Trais Rhywiol ac Aflonyddu Rhywiol

7.1. Mae Camymddwyn Rhywiol yn cyfeirio at ystod eang o ymddygiadau neu ymgeisiadau amhriodol, nad oes eu heisiau o natur rywiol. Mae'n ymdrin â phob math o drais rhywiol, gan gynnwys rhyw heb gydsyniad, cam-drin rhywiol (yn ogystal â cham-drin ar-lein a thrwy luniau), cyffwrdd rhywiol heb gydsyniad, aflonyddu rhywiol, pornograffi dial, stelcio, neu sylwadau diraddiol rhywiol eu natur.
7.2. Term cyffredinol i ddisgrifio gweithred neu weithgarwch rhywiol o unrhyw fath nad oes eu heisiau neu dan orfodaeth yw trais a cham-drin rhywiol, gan gynnwys treisio, ymosodiad rhywiol, traffico neu gamfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol a gorfodi rhywun arall i ymgymryd â gweithgaredd rhywiol.

7.3. Mae aflonyddu rhywiol yn ymddygiad digroeso sy'n tramgwyddo urddas rhywun, yn peri i rywun deimlo dan fygythiad, yn cael eu darostwng neu eu bychanu, neu drwy greu amgylchedd gelyniaethus neu sarhaus.
7.4. Gall gynnwys ystod eang o ymddygiad megis sylwadau rhywiol, gwneud synau neu ystumiau, cilwenu, anfon cynnwys rhywiol digroeso (ee lluniau o'r pidyn), cwestiynau rhywiol busneslyd, sylwadau am gorff rhywun, arddangos neu anfon lluniau rhywiol/pornograffi, dinoethi anweddus neu gyswllt corfforol digroeso o natur rywiol.
7.5. Ystyrir rhai mathau o aflonyddu rhywiol ee stelcio, dinoethi anweddus, uwchsbecian *(upskirting)*, porn dial ac unrhyw beth sy'n cynnwys cyffwrdd corfforol digroeso o natur rywiol yn drosedd yn awtomataidd.
7.6. Gall mathau eraill o aflonyddu rhywiol dorri'r Gyfraith Droseddol, gan ddibynnu ar y sefyllfa. Er enghraifft, os bydd achos o rywun yn aflonyddu'n rhywiol fwy nag unwaith a hynny gyda'r bwriad o beri braw neu ofid i rywun arall.

## 8. Ymddygiad Ar-Lein

8.1. Fel aelod o Undeb y Myfyrwyr, disgwylir i chi ymddwyn ar-lein yn union ag y byddech chi mewn unrhyw sefyllfa arall, a thrin pobl â'r un tegwch, gonestrwydd, a pharch ag y byddech chi'n ei wneud wyneb yn wyneb.
8.2. Pan yn defnyddio cyfryngau ar-lein (ee cyfryngau cymdeithasol, negeseuo, e-bostio, grwpiau a fforymau) i ryngweithio gydag aelodau Undeb Aberystwyth eraill neu yn rhan o gymdeithas, grŵp, neu ddigwyddiad, mae'n rhaid i chi:

8.2.1. Ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad hwn;
8.2.2. Peidio â chreu neu rannu cynnwys maleisus;
8.2.3. Bod yn onest gyda'ch bwriad pan yn rhoi cynnwys ar y we;
8.2.4. Osgoi gweithredoedd a allai amharchu eich cyd-aelodau, eich cydweithwyr Undeb Aber, neu'r myfyrwyr; yr Undeb neu'r Brifysgol

8.3. Pan yn defnyddio y cyfryngau cymdeithasol neu lwyfannau ar-lein yn rhan o swydd ffurfiol yn Undeb Aberystwyth, neu ar ran weithgarwch Undeb Aber, cymdeithas neu grŵp, cofiwch bob tro eich bod yn cynrychioli Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol.
8.4. Bydd unrhyw ddefnydd di-enw o lwyfannau ar-lein at ddibenion bwlio eraill, gwahaniaethu yn eu herbyn, aflonyddu arnynt neu eu cam-drin neu at bardduo enw da Undeb Aberystwyth, ei staff neu'i aelodau yn destun camau disgyblaethol.

## 9. Rhyddid Barn

9.1. Nid atal eich gallu i fynegi eich hawl i ryddid barn cyfreithlon mo diben y Cod hwn.
9.2. Er mwyn bod yn gymuned ddysgu fywiog, credwn fod yn rhaid sicrhau awyrgylch trafod rhydd ac agored ar gyfer myfyrwyr ac rydym yn annog hyn yn gryf. Sail hanfodol cymdeithas ddemocrataidd yw hyn. Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth neu syniadau a gaiff eu derbyn yn ffafriol neu heb fod yn ddadleuol, ond hefyd y rhain a allai sarhau, synnu neu gynhyrfu'r gwrandäwr.
9.3. Mae goddefgarwch a meddwl agored yn hanfodol i awyrgylch dysgu cynhwysol, a dylai pob safbwynt, gan gynnwys y rheiny sy'n hollti barn, gael ei fynegi a'i glywed gyda goddefgarwch a pharch at y naill ochr i'r llall.

9.4. Nid oes angen i Undeb y Myfyrwyr ganiatáu i'r rheini nad ydynt yn fyfyrwyr ddefnyddio ein cyfleusterau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, byddwn yn cefnogi myfyrwyr os byddant yn dymuno cynnal gweithgareddau neu ddigwyddiadau hyd yn oed os yn ddadleuol, cyhyd ag y'u ystyrir yn ddiogel, yn gyfreithlon a'u bod yn cydymffurfio â'n polisïau, ein gweithdrefnau a'n rheolau arferol.

9.5. Mae'n bwysig nodi nad yw meddu ar ryddid barn / mynegiant yn gyfystyr â pheidio â chael eich dal yn atebol i'ch llefaru. Lle'r ystyrir bod eich iaith neu eich gweithredoedd yn annog casineb, trais neu yn cael effaith ar ddiogelwch eraill, yna gallech gael eich ystyried i fod yn torri'r Cod hwn a chewch eich dwyn yn atebol i gamau disgyblaethol.

9.6. Mae protestio heddychlon yn fath o fynegiant gwarchodedig ac nid yw'r Cod hwn yn ceisio cyfyngu ar eich hawl rhag cymryd rhan mewn protestio heddychlon. Fodd bynnag, ni ddylai protestio gael cau trafodaeth, tresmasu ar hawliau eraill neu beri difrod i eiddo, fel arall, fe'i ystyrir yn groes i'r Cod hwn.

## 10. Torri'r Cod Ymddygiad

10.1. Os byddwch yn torri safonau'r ymddygiad a amlinellir yn y Cod hwn (boed yn fwriadol neu'n anfwriadol), gallai hyn arwain at gynnal ymchwiliad o dan Bolisi a Gweithdrefn Ddisgyblaethol Aelodau Undeb y Myfyrwyr.

10.2. Os ydy eich ymddygiad wedi torri safonau ymddygiad derbyniol y brifysgol yna efallai y bydd yn destun ymchwiliad o dan reolau a rheoliadau y Brifysgol.

10.3. Os ydych chi'n credu bod aelod arall wedi torri'r Cod hwn, gallwch godi eich pryderon naill ai yn anffurfiol neu'n ffurfiol gydag aelod staff Undeb Aberystwyth neu gyflwyno cwyn gan ddilyn ein Gweithdrefn Gwyno.

## 11. Adolygu'r Cod Ymddygiad

11.1. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Aberystwyth yn goruchwylio y Cod Ymddygiad a bydd yn ei adolygu bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben ac yn cael ei weithredu'n effeithlon.

11.2. Prif Weithredwr/wraig Undeb y Myfyrwyr sy'n ymgymryd â gwaith rheoli gweithredol y Cod Ymddygiad.

11.3. Caiff rheoli achosion ei adolygu a'i oruchwylio gan Grŵp Adolygu Achosion a Chwynion, y mae cyfrifoldeb arno am sicrhau y caiff achosion eu rheoli mewn modd cyson a phriodol ac y caiff unrhyw wersi a ddaw o achosion eu hadnabod a'u gweithredu.